OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 1246 (Cy. 206)

2024 No. 1246 (W. 206)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024

The Prescribed Objects for Body Piercing (Special Procedures) (Wales) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") yn sefydlu cynllun trwyddedu mandadol i unigolion sy'n dymuno rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Mae adran 57 o'r Ddeddf yn darparu bod "tyllu'r corff" yn driniaeth arbennig at ddibenion Rhan 4.

Mae'r diffiniad o "tyllu'r corff" wedi ei ddarparu yn adran 94(1) o'r Ddeddf a'i ystyr yw gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae adran 94(2) o'r Ddeddf yn darparu, at ddiben diffinio "tyllu'r corff", fod y cyfeiriad at wneud trydylliad yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi y bydd unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith (er enghraifft bachau, angorau macrogroenol, angorau microgroenol, microsglodion cyfathrebu agosfaes, gleiniau silicon) yn dod o fewn y diffiniad o dyllu'r corff at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf. Mae hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i'r unigolion hynny sy'n rhoi triniaeth tyllu'r corff gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu unrhyw wrthrych, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn, gael trwydded triniaeth arbennig o dan Ran 4 o'r Ddeddf (oni bai eu bod wedi eu hesemptio).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 4 of the Public Health (Wales) Act 2017 ("the Act") establishes a mandatory licensing scheme for individuals who wish to perform special procedures in Wales. Section 57 of the Act provides that "body piercing" is a special procedure for the purposes of Part 4.

The definition of "body piercing" is provided in section 94(1) of the Act and means the perforation of an individual's skin or mucous membrane, with a view to enabling jewellery, or an object of a description prescribed in or under regulations, to be attached to, implanted in, or removed from the individual's body. Section 94(2) of the Act provides that for the purpose of defining "body piercing", the reference to perforation includes (among other things) by way of puncture or incision.

These Regulations prescribe that any object that is not jewellery (for example hooks, macro-dermals, micro-dermals, near-field communication chips, silicone beads) will fall within the definition of body piercing for the purposes of Part 4 of the Act. This means that those individuals who perform body piercing with the view to enabling jewellery, or any object, to be attached to, implanted in, or removed from an individual's body will be required to obtain a special procedure licence under Part 4 of the Act (unless they are exempt).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2024 Rhif 1246 (Cy. 206)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024

Gwnaed	*27 Tachwedd 2024*
Yn dod i rym	*29 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 94(1) a 123(1)(b) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 123(2)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 29 Tachwedd 2024.

(**1**) 2017 dccc 2 ("y Ddeddf"). *Gweler* adran 124(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "rheoliadau".

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 123 o'r Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

2024 No. 1246 (W. 206)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Prescribed Objects for Body Piercing (Special Procedures) (Wales) Regulations 2024

Made	*27 November 2024*
Coming into force	*29 November 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 94(1) and 123(1)(b) of the Public Health (Wales) Act 2017(**1**), make the following Regulations.

In accordance with section 123(2)(b) of that Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Prescribed Objects for Body Piercing (Special Procedures) (Wales) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 29 November 2024.

(**1**) 2017 anaw 2 ("the Act"). *See* section 124(1) of the Act for the definition of "regulations".

(**2**) The reference in section 123 of the Act to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

Gwrthrychau rhagnodedig at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

2. Mae unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith wedi ei ragnodi at ddibenion paragraff (b) yn y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 94(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, ond dim ond i'r graddau y mae'r diffiniad hwnnw yn gymwys at ddibenion Rhan 4 o'r Ddeddf honno (triniaethau arbennig).

Prescribed objects for the purposes of Part 4 of the Public Health (Wales) Act 2017

2. Any object that is not jewellery is prescribed for the purposes of paragraph (b) in the definition of "body piercing" in section 94(1) of the Public Health (Wales) Act 2017, but only insofar as that definition applies for the purposes of Part 4 of that Act (special procedures).

Jeremy Miles

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Tachwedd 2024

Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
27 November 2024

©ⓗHawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39628-7

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/1246

9 780348 396287